***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 1

## ADOLYGIADAU CYCHWYNNOL O DREFNIADAU ETHOLIADOL ETC.

*Adolygiadau cychwynnol*

1 (1) At ddibenion y Ddeddf hon, "adolygiad cychwynnol" yw adolygiad a gynhelir gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ("y Comisiwn") at ddiben argymell trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardal sy'n cael ei hadolygu.

(2) Mewn adolygiad cychwynnol caiff y Comisiwn hefyd argymell newidiadau canlyniadol perthnasol.

(3) Mae'r paragraff hwn yn ddarostyngedig i unrhyw beth a bennir, o dan adran 11(3) neu 138(3), yn y cyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal adolygiad cychwynnol.